

2013 Rhif (Cy.)

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol
Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru)
(Diwygio) 2013**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud nifer o newidiadau i Reoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011") o ganlyniad i adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ddod i rym ar 4 Mai 2013 ("Deddf 2013").

Mae adran 94 o Ddeddf 2013 yn rhoi hawl i rieni i gyflwyno deiseb i gael cyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol lle y mae eu plentyn yn ddisgybl cofrestredig. Mae adran 95 o Ddeddf 2013 yn diddymu'r ddyletswydd ar gorff llywodraethu i gynnal cyfarfod rhieni blynyddol yn adran 33 o Ddeddf Addysg 2002.

Mae paragraffau (2), (3)(a) a (b) a (4) o reoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn hepgor cyfeiriadau yn Rheoliadau 2011 at y ddyletswydd i gynnal cyfarfod rhieni blynyddol yn adran 33 o Ddeddf Addysg 2002.

Mae rheoliad 5 o Reoliadau 2011 yn darparu y dylai copi o adroddiad llywodraethwyr yr ysgol gael ei ddarparu yn rhad ac am ddim i rieni oni bai bod un o'r eithriadau a nodir yn y rheoliad hwnnw yn gymwys. Mae paragraff (3)(c) o reoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 5 o Reoliadau 2011 er mwyn ychwanegu at y rhestr o eithriadau o ran pa bryd y mae rhaid i gopi o adroddiad y llywodraethwyr gael ei ddarparu yn rhad ac am ddim i rieni disgyblion cofrestredig.

Mae paragraffau (5) a (6) o reoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2011 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu gynnwys gwybodaeth benodol mewn perthynas â'i ddyletswydd i gynnal cyfarfod rhieni yn adran 94 o Ddeddf 2013 yn ei adroddiad blynyddol.

2013 Rhif (Cy.)

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol
Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru)
(Diwygio) 2013**

<i>Gwnaed</i>	2013
<i>Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru</i>	2013
<i>Yn dod i rym</i>	2013

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 30(1) a (2) a 210 o Ddeddf Addysg 2002(1) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) (Diwygio) 2013 a deuant i rym ar [] 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol
Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011**

2.—(1) Mae Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 hepgorer y diffiniad o "cyfarfod rhieni blynyddol" ("*annual parents' meeting*").

(3) Yn rheoliad 5—

(a) hepgorer paragraffau (1)(c) a (2)(b);

(1) 2002 p.32. Diwygiwyd is-adrannau (1) a (2) o adran 30 gan Ddeddf Addysg 2005 (p.18), adran 103(1)(a). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 30 a 210 o Ddeddf Addysg 2002 i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(2) O.S. 2011/1939 (Cy.207).

- (b) ym mharagraff (2) hepgorer “na’r gofyniad ym mharagraff (1)(c)”;
- (c) ym mharagraff (2)(a) ar ôl “paragraffau 1,” mewnosoder “1A, 1B,”.

(4) Yn rheoliad 6 yn lle “paragraffau (a) nac (c) o reoliad 5(1) yn gymwys” rhodder “paragraff (a) o reoliad 5(1) yn gymwys”.

(5) Yn lle paragraff 1 o Atodlen 2 rhodder—

“1

Pan fo corff llywodraethu wedi cynnal cyfarfod rhieni yn unol ag adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013—

- (a) y dyddiad y cynhaliwyd y cyfarfod;
- (b) lle y cynhaliwyd y cyfarfod;
- (c) y rhesymau a roddwyd gan rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol dros ddeisebu i gael cyfarfod;
- (d) enwau’r personau a ganlyn a fu’n bresennol yn y cyfarfod—
 - (i) aelodau o’r corff llywodraethu;
 - (ii) aelodau o staff yr ysgol;
 - (iii) cynrychiolwyr o’r awdurdod lleol; a
 - (iv) enw unrhyw berson arall ac eithrio enw rhiant disgybl cofrestredig na fu’n bresennol yn rhinwedd ei swydd fel aelod rhiant-lywodraethwr o’r corff llywodraethu;
- (e) faint o rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol a fu’n bresennol yn y cyfarfod;
- (f) disgrifiad byr o’r materion a drafodwyd yn y cyfarfod;
- (g) disgrifiad byr o’r camau gweithredu y penderfynodd y corff llywodraethu eu cymryd, os bu rhai, o ganlyniad i’r materion a drafodwyd yn y cyfarfod; a
- (h) disgrifiad byr o ganlyniad y camau a gymerwyd gan y corff llywodraethu, os bu rhai, o ganlyniad i’r materion a drafodwyd yn y cyfarfod.”

(6) Ar ôl paragraff 1 o Atodlen 2, mewnosoder—

“1A

Pan na fo corff llywodraethu wedi cynnal cyfarfod rhieni yn unol ag adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 datganiad byr i’r perwyl hwnnw.

1B

Pan fo corff llywodraethu wedi cael deiseb i gynnal cyfarfod rhieni yn unol ag adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ond ni chynhaliwyd cyfarfod—

- (a) datganiad byr i'r perwyl hwnnw;
- (b) y diben a roddwyd gan y rhieni ynghylch yr angen i gynnal cyfarfod; ac
- (c) y rheswm dros beidio â chynnal cyfarfod.”.

Leighton Andrews
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion
Cymru

[] 2013